Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Carwe
## Carwe
## Cydweli
## Sir Gaerfyrddin
## SA17 4HE

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Carwe

Lleolir Ysgol Gynradd Carwe ym mhentref Carwe ger Cydweli, Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 50 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 11 plentyn oed meithrin amser llawn. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn ar y cyd ag Ysgol Gynradd Ponthenri ac Ysgol Gynradd Gwynfryn.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 38% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol yn adnabod 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Chwefror 1999 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2010. Sefydlwyd y ffederasiwn gydag ysgolion Gwynfryn a Phonthenri yn Chwefror 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Carwe yn gymuned gynhwysol, hapus, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd.  O dan arweiniad egnïol a gofalus y pennaeth a'r tim arwain, mae'r staff yn cynllunio amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion.  Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n agos â staff ysgolion y ffederasiwn er mwyn rhannu arbenigedd.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, ac yn datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol a hyderus.  Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn cyfranogi'n llawn mewn profiadau dysgu.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol er mwyn hyrwyddo lles a datblygiad emosiynol y disgyblion yn effeithiol iawn.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth gymunedol ymysg y disgyblion yn dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safon Cymraeg llafar yr ychydig iawn o ddisgyblion llai hyderus

A2 Sicrhau bod gweithgareddau rhifedd yn ymateb yn llawn i anghenion disgyblion o bob gallu

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau gwella ansawdd yn fwy effeithiol wrth wella deilliannau disgyblion a chryfhau'r ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae medrau iaith a rhif llawer o'r disgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig. Er hynny, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg sy'n cychwyn yn yr ysgol yn ystod cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da mewn amser cymharol fyr ac yn datblygu rhuglder llafar yn gyflym yn sgil cefnogaeth yr ysgol a'r ganolfan iaith.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus ac aeddfed yn ystod eu tasgau. Maent yn mynegi barn yn huawdl, er enghraifft wrth drafod darn o gerddoriaeth y maent yn ei greu gyda gwahanol offerynnau taro yn y ddarpariaeth barhaus. Mae medrau llafar rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda yn Saesneg ac yn y Gymraeg yn unol â'u hoed a gallu. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus, gan ddefnyddio ystod o eirfa i gyfoethogi eu sgwrs yn effeithiol. Gallant fynegi barn yn glir, er enghraifft wrth drafod bywyd a gwaith Dr Martin Luther King yn yr Unol Daleithiau yn y chwedegau. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion nad ydynt yn mynegi eu hunain mor hyderus ac mae gwallau ieithyddol yn llesteirio eu gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar adegau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn darllen yn gynyddol hyderus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod llythrennau yn gynnar ac yn datblygu medrau ffonig cadarn sy'n eu galluogi i ddehongli cymalau a geiriau. Mae llawer yn mwynhau darllen yn fawr ac yn trafod llyfrau yn aeddfed. Gall llawer ddarllen cyfarwyddiadau'n gymwys, er enghraifft wrth weithio ar heriau ac yn yr ardal tu allan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl a hyderus yn unol â'u hoed a gallu, yn y ddwy iaith. Maent yn mynegi barn am y testun yn aeddfed.

Mae ysgrifennu rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn creu darnau cydlynol a chreadigol, er enghraifft wrth lunio stori Elen Benfelen a'r tair arth, neu wrth lunio cyfarwyddiadau i goginio popcorn. Mae'r rhan fwyaf yn sillafu ac atalnodi'n gadarn. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu darnau dychmygus yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth lunio bywgraffiad aeddfed o'r gwleidydd David Lloyd George, a'r darn dychmygus Saesneg 'The woman from the wonderful waterfall,' sydd wedi ei seilio ar chwedl Llyn y Fan Fach. Gall llawer ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith yn effeithiol.

Mae medrau rhifedd disgyblion ar draws y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. O'r cychwyn cyntaf, mae rhan fwyaf o ddisgyblion y feithrin a'r derbyn yn arddangos medrau rhif cadarn. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 afael gadarn ar ffeithiau rhif hyd at gant. Gallant egluro priodweddau gwahanol siapiau, a gall llawer ddehongli bas data syml gan ddod i gasgliadau yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn deall ac yn defnyddio canrannau yng nghyd-destun arian yn hyderus a chywir. Gall llawer greu fformiwla syml fel rhan o'u gwaith ar rifau trionglog. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion bob amser yn cymhwyso'u medrau rhifedd i'r un safon mewn cyd destunau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio amrediad da o galedwedd a meddalwedd TGCh yn hyderus a chynyddol annibynnol. Mae llawer yn dewis yr offer a'r meddalwedd mwyaf addas er mwyn cyflawni tasgau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni penodol yn gymwys i atgyfnerthu gwybodaeth o ffeithiau'r pedair rheol a dysgu tablau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu cyflwyniadau creadigol ac yn trafod eu cynnwys yn hyderus. Maent yn creu animeiddiadau celfydd a chyflwyniadau gwreiddiol trwy ddefnyddio sgrin werdd er mwyn hysbysebu Ysgol Carwe ymysg darpar rieni.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae safonau lles ar draws yr ysgol yn dda, ac mae agwedd bron pob disgybl at ddysgu yn aeddfed a chadarnhaol iawn. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth gadarn yr athrawon a'r cynorthwywyr.

Mae'r cynghorau disgyblion yn chwarae rôl werthfawr ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cymryd eu gwaith o ddifri ac yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau yn aeddfed. Mae disgyblion y cynghorau yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion yn ysgolion eraill y ffederasiwn, ac mae hyn yn ychwanegu at eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar brofiad ysgol y disgyblion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae cyngor y ffederasiwn wedi creu polisïau defnyddiol ar ymddygiad, cyfle cyfartal a gwrthfwlian. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n rhydd o unrhyw aflonyddu, ac yn gwybod beth i'w wneud petai rhywbeth yn ei boeni. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i gadw'n ddiogel ar lein. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, ac mae cyfranogiad llawer o ddisgyblion yn y gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n effeithiol at eu lles, eu hyder a'u hunanddelwedd. Er enghraifft, trwy waith y llysgenhadon chwaraeon a threfnwyr y siop ffrwythau, mae disgyblion yn annog eu cyfoedion i wneud dewisiadau byrbryd iachus amser egwyl ac yn arwain gemau egnïol ar y buarth.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn aeddfed, ac yn disgwyl eu tro yn amyneddgar, er enghraifft wrth drafod eu hymweliad â chastell Caeriw a'r ardd fotaneg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n annibynnol yn ystod eu gweithgareddau, heb ddibynnu gormod ar oedolion. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau â'u tasgau, ac maent yn mwynhau heriau. Mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at fagu hyder ymysg y disgyblion yn eu gallu i lwyddo. Mae disgyblion yn cefnogi gweithgareddau elusennol yn rheolaidd i godi arian at nifer o wahanol fudiadau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn ymroi i'r dysgu yn syth. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu tasgau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cefnogi dysgu ei gilydd yn hynod effeithiol yn y gwersi ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr brwdfrydig ac annibynnol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi gwella. Mae absenoldebau parhaus wedi gostwng yn arwyddocaol dros y cyfnod hwn. Mae trefniadau'r bws cerdded wedi dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar bresenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r berthynas waith agos a chefnogol rhwng y disgyblion a'r oedolion yn gryfder. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda iawn, ac yn eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu, tra hefyd yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol iddynt. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddefnyddio eu Cymraeg o fewn gwersi ac ar adegau anffurfiol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'u Cymraeg yn naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain a chymryd elfen o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Ar gychwyn themâu, mae'r athrawon yn trafod a chytuno'r trywyddau nesaf gyda'r disgyblion, er mwyn annog cyfranogiad llawn pob disgybl. Mae bron pob disgybl yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi'n bwrpasol ac mae'r disgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol wrth werthuso llwyddiant yn eu tasgau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio amrediad o weithgareddau symbylus a heriol sy'n datblygu annibyniaeth yn llwyddiannus ymysg y disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn magu annibyniaeth sylweddol o oedran ifanc, ac yn dyfalbarhau â'u tasgau. Mae'r athrawon yn trefnu profiadau dysgu'n fedrus er mwyn annog datblygiad medrau ac annibyniaeth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r ardaloedd yn gelfydd ac aeddfed wrth ddatblygu gwahanol fedrau a chydweithio'n llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o wersi yn darparu cyfleoedd ymestynnol a diddorol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau. Mae cyflwyniadau byr a gweithgareddau ymarferol yn cynnal brwdfrydedd y disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau yn aeddfed â'u tasgau.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn darparu adborth cyson a defnyddiol i ddisgyblion o bob oedran a gallu. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn gryno ac o safon dda, ac mae gan ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar eu gwaith, yn unigol ac mewn parau, ac i gynnig adborth i'w cyfoedion.

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang a diddorol o brofiadau dysgu i'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gwahanol ymyraethau llwyddiannus yn cael eu darparu i gefnogi grwpiau o ddisgyblion gyda'u dysgu, er enghraifft wrth hybu a chefnogi darllen. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd cyson, manwl o gynlluniau gwaith er mwyn sicrhau amrediad llawn o weithgareddau sy'n diwallu anghenion y cwricwlwm cenedlaethol, egwyddorion y cyfnod sylfaen ac addysg grefyddol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau pwrpasol i sicrhau bod athrawon yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a chynlluniau TGCh i ddatblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Ceir cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd mewn ystod eang o gyd-destunau, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at y cyngor lleol yn pryderu am y broblem baw cwn ym mhentref Carwe. Ceir cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau go iawn, er enghraifft wrth ddefnyddio thermomedr i gymharu newidiadau mewn tymheredd ar ddiwrnod oer o aeaf. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau rhifedd bob amser yn darparu her i'r un graddau â mewn gwersi mathemateg er mwyn ymateb yn llawn i anghenion disgyblion o bob gallu.

Mae'r cynllunio ar y cyd ar draws y ffederasiwn yn gryfder. Mae'r athrawon yn rhannu arbenigedd er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y tair ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn amrediad llawn ac effeithiol o brofiadau, ac mae eu cynnydd yn cael ei fonitro'n agos.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth holl gymuned yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynnal nosweithiau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer rhieni, sy'n canolbwyntio ar drafod y dulliau dysgu a ddefnyddir yn yr ysgol. Mae hyn yn cynorthwyo rhieni i ddeall sut i annog a chefnogi eu plant gyda'u dysgu.

Mae gan yr ysgol systemau electronig effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol iawn er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol ac i ddarparu ymyrraeth yn ôl yr angen. Mae cynorthwywyr yn gweithio'n effeithiol o dan arweiniad yr athrawon a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd rhan fwyaf y disgyblion. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu unigol pwrpasol, sy'n cynnwys targedau meintiol a chamau gweithredu addas. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n ofalus gan athrawon ac yn cael eu trafod yn gyson gyda rhieni a gofalwyr.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd medrus o arbenigedd amrediad o asiantaethau allanol er mwyn cefnogi cynnydd a lles disgyblion. Mewn cydweithrediad ag amrediad o asiantaethau, mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at greu ethos gofalgar a theuluol yr ysgol.

Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn ar draws y ffederasiwn. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ymddygiad. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes, diwylliant a thraddodiadau'r ardal leol a Chymru yn ehangach. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r astudiaeth o hanes datblygiad tref Llanelli. Mae'r ysgol yn rhoi sylw trylwyr i barchu diwylliannau gwahanol, hybu agweddau ar amrywiaeth, a datblygu tegwch, goddefgarwch a chyfle cyfartal. Mae'r disgyblion yn codi arian yn rheolaidd tuag at elusennau fel y Groes Goch a Macmillan. Mae'r arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol yn cefnogi'r addysgu yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gwneud

defnydd effeithiol ohonynt i gefnogi gwerthoedd a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi creu ethos o gydweithio ar draws tair ysgol y ffederasiwn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r holl staff yn ymwybodol mai staff y ffederasiwn ydynt, ac nid ysgol benodol. Un o nodweddion blaengar y gyfundrefn hon yw bod staff yn gallu addysgu ar fyr rybudd yn unrhyw un o ysgolion y ffederasiwn heb i hyn amharu ar addysg y disgyblion. Mae hyn yn gryfder eithriadol. Mae strwythur staffio'r ffederasiwn yn galluogi'r athrawon a chynorthwywyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o holl waith y tair ysgol. Mae arweinwyr a staff y ffederasiwn yn rhannu a datblygu gweledigaeth strategol a nodau clir yn fwriadus gyda holl gymuned y ffederasiwn.

Mae gan y pennaeth a'r penaethiaid cynorthwyol fedrau arwain cryf. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cefnogi ac arwain eraill yn effeithiol i godi safonau a hybu lles disgyblion. Mae arweinyddiaeth gadarn ar draws y ffederasiwn wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus ymysg staff y tair ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio effeithiol wrth gyd-gynllunio, asesu a chymedroli fel un corff o staff. Defnyddir rhwydwaith digidol Hwb yn bwrpasol er mwyn rhannu dogfennau ar draws y ffederasiwn. Fodd bynnag, nid oes gan yr arweinwyr drosolwg ddigon clir o ba mor effeithiol mae'r cynlluniau cwricwlaidd yn cael eu gweithredu yn y tair ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol ar flaenoriaethau'r ysgolion. Trwy gydweithio ag arweinwyr yr ysgol, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ynghylch y ddarpariaeth ac maent wedi cymryd penderfyniadau anodd er mwyn cynnal safonau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi bod yn ddigon heriol wrth sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch tros gyfnod o amser. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Enghraifft o hyn yw'r modd maent wedi herio'r ysgol ynglŷn ag effaith y grant datblygu disgyblion ar bresenoldeb, prydlondeb a datblygu medrau bywyd disgyblion.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau sy'n dilyn y monitro a chraffu ar lyfrau yn nodi'r cryfderau'n glir. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n adnabod yn gyson y camau nesaf i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun cynhwysfawr, gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau gwella yn cael digon o effaith ar ddeilliannau disgyblion bob tro. Enghraifft o hyn yw'r ffaith bod gwella perfformiad disgyblion mwy abl a thalentog wedi ymddangos am nifer o flynyddoedd yn y cynllun datblygu.

Mae holl staff y ffederasiwn yn cydweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd ac mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu profiadau ac arfer dda o fewn yr ysgol. Mae hyn wedi bod o gymorth i ysgafnhau baich gwaith athrawon a chyfoethogi profiadau disgyblion. Enghraifft benodol o hyn yw'r profiadau cyfoethog a chreadigol a gaiff y disgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n greadigol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau gwerth am arian. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau a datblygu lles disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2018